

Gweithdy Actifyddion Cymunedol



Actifyddion Cymunedol

Mae'r gweithdy hwn wedi cael ei greu fel rhan o becyn adnoddau i edrych ar y costau ychwanegol mae plant a'u teuluoedd yn eu hwynebu o ddydd i ddydd. Mae'r rhan fwyaf o'r gweithgareddau yn y pecyn adnoddau hwn yn canolbwyntio ar gostau'r diwrnod ysgol, ond mae'r gweithdy hwn yn canolbwyntio ar y costau i gymuned leol plant a phobl ifanc.

Roedd y plant a'r bobl ifanc y buon ni'n siarad â nhw yn ystod y prosiect yma yn gosod gwerth ar y cyfleoedd maen nhw'n eu cael yn eu cymuned leol. Roedden nhw hefyd yn teimlo'n angerddol bod rhai gwasanaethau pwysig ar goll.

Actifyddion Cymunedol

Cysylltiad â Hawliau:

Erthygl 12 – Eich hawl i ddweud beth ddylai digwydd ac i rywun wrando arnoch

Erthygl 15 – Eich hawl i gyfarfod â ffrindiau ac ymuno â grwpiau a chlybiau

Erthygl 26 – Yr hawl i arian ychwanegol os nad oes gan eich teulu ddigon o arian i fyw

Erthygl 29 – Yr hawl i gael addysg sy'n datblygu fy mhersonoliaeth, parch at hawliau pobl eraill a'r amgylchedd

Amseru:

Bydd angen 60 munud i gwblhau'r gweithgaredd hwn

Canlyniadau dysgu:

- Mae'r gweithdy hwn yn galluogi pobl ifanc i feddwl am eu cymuned a'r hawliau sydd ganddyn nhw.
- Mae hefyd yn cefnogi pobl ifanc i feddwl am y newidiadau y bydden nhw'n hoffi eu gweld.

Adnoddau:

- Gêm Snaptifyddion.
- Papur mawr (byddai rholiau papur yn ddelfrydol).
- Tâp gludiog.
- Pinnau ysgrifennu a phensiliau.
- [Poster](#)i/cardiau symbolau [Gwybod eich Hawliau](#).
- Nodiadau Post-it (hefyd gallwch chi ddefnyddio papur sgrap a thâp gludiog).
- Proffil o gymeriad Cofia Ceri.
- Taflen 'Creu Newidiadau'
- Taflen 'Pwy sy'n gallu helpu'

Actifyddion Cymunedol

Cyflwyniad:

- Dechreuwch trwy ddweud wrth y grŵp:
“Cyn dechrau edrych ar eich cymuned eich hun a’r effaith bositif y gall eich grŵp gael; rydyn ni’n mynd i chwarae Snaptifyddion. Ym mhecyn y gêm cewch disgrifiadau o bobl ifanc sydd wedi cael effaith gadarnhaol ar eu cymunedau lleol, a bywydau pobl ifanc eraill.”
- Os oes gennych chi grŵp mawr, rhannwch y grŵp yn grwpiau llai o 5-6.
- Dosbarthwch becyn o’r disgrifiadau a hawliau i bob un o’r grwpiau.
- Gofynnwch i’r grwpiau baru’r actifydd â’r disgrifiad ac yna â’r hawl maen nhw’n ei hamddiffyn.

Prif ran:

Nesaf, byddwch chi’n symud ymlaen i feddwl am eich cymuned eich hun.

- Rhowch ddarn mawr o bapur i bob grŵp.
- Gofynnwch i bob grŵp dynnu llun o’u cymuned leol, gan roi eu man cyfarfod yn y canol.

- Caniatewch 15 munud ar gyfer y rhan yma o’r gweithgaredd, ac anogwch y grŵp i fod yn greadigol wrth greu eu mapiau, gallen nhw ddefnyddio symbolau neu ddeunyddiau celf eraill.
- Gofynnwch i bob grŵp ddefnyddio nodiadau ‘post-it’ neu gardiau symbolau i gysylltu llefydd yn eu cymuned â’u hawliau.
- Awgrymwch ddechrau yn eu man cyfarfod gydag Erthygl 12 (Eich hawl i ddweud beth ddylai digwydd ac i rywun wrando arnoch) ac Erthygl 15 (Eich hawl i gyfarfod â ffrindiau ac ymuno â grwpiau a chlybiau). Bydd hyn yn rhoi syniad da i’r cyfranogwyr o sut mae cysylltu llefydd eraill yn eu hardal â hawliau.

Enghreifftiau eraill:

- Ysgol – Erthygl 28
- Lle chwarae/maes chwaraeon/grŵp theatr - Erthygl 31
- Adeilad crefyddol - Erthygl 14
- Llyfrgell - Erthygl 17
- Meddygon - Erthygl 24
- Ysgol Gymraeg - Erthygl 30 ac Erthygl 28
- Gorsaf Heddlu - Erthygl 19 ac Erthygl 37

Actifyddion Cymunedol

- Unwaith mae pob grŵp wedi cwblhau eu mapiau, gofynnwch i'r grwpiau ddod at ei gilydd i ddangos eu mapiau.
- Nesaf, cyflwynwch gymeriad Ceri trwy ddweud y canlynol:

"Byddwn i'n hoffi cyflwyno cymeriad i chi i gyd. Dyma Ceri, mae Ceri yr un oedran â chi, gallwch chi ddewis beth yw rhywedd Ceri, ac mae Ceri'n byw yn y gymuned hon ac yn mynd i'ch ysgol chi. Does gan deulu Ceri ddim bob amser ddigon o arian ar gyfer y pethau mae ar Ceri eu hangen."

- Rhannwch **broffil cymeriad Cofia Ceri**, sy'n cynnwys mwy o fanylion am deimladau Ceri.
- Gofynnwch i bob grŵp fynd yn ôl at eu mapiau ac ystyried pa bethau yn eu cymunedau fyddai'n anodd i Ceri gael mynediad iddyn nhw.

Gorffen


- Gofynnwch i bob grŵp roi adborth ar y pethau maen nhw'n meddwl y gallai fod yn anodd i Ceri gael mynediad iddyn nhw yn eu cymuned.
- Defnyddiwch ein taflen '**creu newidiadau**' i gydweithio ac ystyried pwy sydd angen i'r grwp gysylltu â nhw er mwyn iddyn nhw fedru creu newid cadarnhaol i bobl ifanc yn eu cymuned, e.e. cyngor lleol neu Aelod Cynulliad.

Proffil o gymeriad Cofia Ceri

Rydw i'n teimlo'n ddiflas iawn achos mae fy nheulu i'n wahanol i bawb arall.

Cenfigennus, rydw i'n teimlo'n genfigennus achos mod i'n methu fforddio pethau pwysig, ond bod eraill yn gallu.

Rwy'n teimlo drist iawn achos mae gan fy ffrindiau bethau maen nhw eisiau, a does gen i ddim hyd yn oed rai pethau rydw i angen.



Rydw i'n teimlo mod i ddim yn ddiogel a bod dim gobaith ar gyfer y dyfodol. Dwi'n poeni am gael cartref, addysg bellach, a chael swydd.

Rydw i'n teimlo mod i'n methu siarad â nheulu am fy mhroblemau oherwydd eu bod nhw eisoes dan straen, a bod angen i mi gael swydd yn lle mynd allan a threulio amser gyda ffrindiau er mwyn gallu cyfrannu at gostau fy nheulu. Dydw i ddim yn dweud wrth fy ffrindiau oherwydd rydw i'n ofni bydden nhw'n gwneud hwyl am fy mhen achos bod gen i ddim yr un pethau â nhw. Byddwn i'n unig!

Taflen Creu Newidiadau

Cam 1 – Beth hoffech chi newid?

Cam 2 – Sut byddai'r newid o fudd i bobl ifanc yn eich cymuned?

Cam 3 – Pwy allai helpu i wneud y newid yma?

Cam 4 – Dewch o hyd i fanylion cyswllt y bobl mae angen i chi siarad â nhw drwy ddefnyddio'r Canllaw "Pwy sy'n gallu fy helpu?"

Cam 5 – Ysgrifennwch at y person neu'r sefydliad rydych chi wedi penderfynu cysylltu â nhw.

Cam 6a – Os cewch chi ateb gan y person/sefydliad yn cytuno i wneud y newid rydych chi wedi gofyn amdano, dylech chi sicrhau eich bod chi'n cadw mewn cysylltiad â nhw i fonitro'r cynnydd a gofyn am ddiweddariadau rheolaidd ar y cynnydd yma.

Cam 6b – Os cewch chi ateb gan y person/sefydliad yn dweud bod dim modd i'r newid rydych chi wedi gofyn amdano ddigwydd, gallech chi ateb yn gofyn am esboniad ac o bosib yn ceisio cael hyd i gyfaddawd. Cofiwch na fydd popeth rydych chi eisiau yn bosibl oherwydd cyfyngiadau cyllideb ac ati.

Pwy allai fy helpu?

PWY ALLAI FY HELPU?	PWY YDYN NHW?	SUT GALLA I GYSYLLTU Â NHW?
Cynghorydd Sir Lleol	Mae Cynghorydd Sir Lleol yn rhywun sy'n cael ei ethol i gynrychioli eich ardal a'r bobl sy'n byw yno yn eich Cyngor Sir. Gallai'r Cyngor Sir fod yn y dref neu'r ddinas fwyaf yn y sir.	<ul style="list-style-type: none">• Chwiliwch am 'Cysylltu â'm Cynghorydd Sir Lleol'• Dylai hyn eich arwain i wefan eich Cyngor Sir Lleol• Nodwch yr ardal lle rydych chi'n byw a dylai eich cynghorydd lleol a'u manylion ymddangos
Cynghorydd Cymunedol/Tref Lleol	Mae eich Cynghorydd Cymunedol/Tref yn cael ei ethol i gynrychioli eich ardal a'r bobl sy'n byw yno mewn cyngor llai a mwy lleol, mae'r rhain yn aml yn bobl y gallech chi eu nabod yn dda yn eich cymuned.	<ul style="list-style-type: none">• Chwiliwch am '(enw eich awdurdod lleol) Community councils' e.e. 'Neath Port Talbot Community Councils' neu 'Gwynedd community councils'• Ffeindiwch eich cyngor cymunedol yn y rhestr a nodwch ei fanylion cyswllt
AC Lleol (Aelod Cynulliad)	Mae AC yn rhywun sy'n cael ei ethol i gynrychioli eich ardal a'r bobl sy'n byw yno yng Nghynulliad Cymru yng Nghaerdydd.	<ul style="list-style-type: none">• Chwiliwch am 'Dod o hyd i'ch Aelod Cynulliad'• Nodwch eich etholaeth (os dydych chi ddim yn gwybod beth yw eich etholaeth, chwiliwch am hynny gyntaf)• Yna dylai proffil eich AC lleol ymddangos, ac yno cewch hyd i'r manylion cyswllt
AS Lleol (Aelod Seneddol/MP)	Mae AS yn rhywun sy'n cael ei ethol i gynrychioli eich ardal a'r bobl sy'n byw yno yn y Senedd yn San Steffan, Llundain.	<ul style="list-style-type: none">• Chwiliwch am 'Find my local MP'• Nodwch eich côd post/ardal• Yna dylai enw eich AS lleol a'u manylion cyswllt ymddangos

Pwy allai fy helpu?

Elusennau Lleol	Gallai'r rhain gynnwys canghennau o elusennau cenedlaethol neu rai lleol llai o faint a allai o bosib eich helpu i godi arian i newid neu ddatblygu pethau yn eich cymuned.	<ul style="list-style-type: none">• Chwiliwch am 'Elusennau yn fy ardal' neu 'Elusennau lleol'• Dylai amrywiaeth o elusennau ymddangos, canghennau o rai Cenedlaethol, yn ogystal ag elusennau lleol llai• Cewch hyd i'w manylion cyswllt ar eu gwefan• COFIWCH ddarllen am beth mae'r elusen yn ei wneud cyn cysylltu â nhw i sicrhau mai nhw yw'r sefydliad cywir i gysylltu â nhw
Grwpiau Cymunedol Lleol	Efallai bod grwpiau eraill fel eich un chi eisoes wedi datrys y problemau rydych chi'n eu hwynebu. Hefyd gallai fod grwpiau o oedolion y gallech chi weithio gyda nhw i weithredu'r newidiadau rydych chi am eu gwneud.	<ul style="list-style-type: none">• Chwiliwch am 'grwpiau cymunedol yn fy ardal'• Dylai hynny roi i chi amrywiaeth o grwpiau yn eich ardal chi• Cewch hyd i'w manylion cyswllt ar eu gwefannau neu ar eu tudalennau cyfryngau cymdeithasol• COFIWCH ddarllen am beth mae'r grwpiau yma yn ei wneud cyn cysylltu â nhw i sicrhau eich bod chi'n cysylltu â'r grwpiau a'r bobl cywir
PCSO Lleol Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu	Mae PCSOs yn gweithio ar reng flaen eich heddlu lleol, gan ddarparu presenoldeb gweladwy, sy'n rhoi sicrwydd, ar y strydoedd, ond does ganddyn nhw ddim yr un pwerau â heddwision arferol.	<ul style="list-style-type: none">• Chwiliwch am 'Cysylltu â'm PCSO lleol'• Nodwch eich côd post yn y peiriant chwilio ar wefan eich heddlu lleol• Yna bydd manylion cyswllt y swyddog mae angen i chi gysylltu â nhw yn ymddangos

Gêm Snaptifyddion:

Enw: Sophie Cruz

Oed: 5 pan ddechreuodd ar actifyddiaeth

Yn 2015, rhedodd i ganol gorymdaith y Pab Francis yn Washington DC. Rhoddodd lythyr i'r Pab, oherwydd roedd hi'n ofni y byddai ei rhieni - oedd wedi mewnfudo o Fecsico heb ddogfennau - yn cael eu hanfon o'r wlad. Mewn cyfweiliad dywedodd, "Rwy'n credu bod gen i hawl i fyw gyda'm rhieni. Mae gen i hawl i fod yn hapus."

Ym mis Mawrth 2017 fe gwrrdodd hi â Barack Obama a siarad yn yr Orymdaith i Fenywod.

Enw: Malala Yousafzai

Oed: 11 pan ddechreuodd ar actifyddiaeth

Yn 2008, dechreuodd y Taliban reoli ei phentref, a dweud bod dim hawl gan ferched i fynd i'r ysgol bellach. Roedd hi'n anghytuno â hyn, a bu'n siarad yn gyhoeddus ar ran merched a'u hawl i addysg. Ym mis Hydref 2012, cafodd ei saethu yn ei phen gan ddyn yn gwisgo mwgwd oedd am ei distewi. Symudodd hi i ysbyty yn Birmingham ac arhosodd yn y Deyrnas Unedig ar ôl gwella.

Mae hi'n dal yn codi llais dros ferched, gan sicrhau eu bod yn cael mynediad i addysg ar draws y byd.

Enw: Millie Bobby Brown

Oed: 14 pan ddechreuodd ar actifyddiaeth

Yn ddiweddar daeth yn llysgennad dros UNICEF a bellach mae'n defnyddio ei henwogrwydd i helpu i gynyddu ymwybyddiaeth o hawliau plant. Mae hi'n canolbwyntio ar hybu addysg, manau diogel i chwarae a dysgu, ac effaith negyddol trais, bwlio a thlodi.

Gêm Snaptifyddion:

Enw: March for our Lives

Oed: 15-18 pan ddechreuson nhw ar actifyddiaeth

Yn dilyn saethu torfol yn eu hysgol uwchradd yn Florida, penderfynodd y grŵp sefydlu mudiad a fyddai'n galw am reolaeth dynnach ar ddefnyddio gynnau yn yr Unol Daleithiau. Cynhaliodd y grŵp brotestiadau ac achosion o gerdded allan, ac ym mis Tachwedd 2018, enillon nhw'r Wobr Heddwch Ryngwladol i Blant.

Enw: Iqbal Masih

Oed: 10 pan ddechreuodd ar actifyddiaeth

Cafodd ei werthu gan ei deulu yn bedair oed i dalu dyled. Bu'n gweithio oriau hir mewn ffatri garpedi nes ei fod yn 10 oed, pan ddihangodd. Cafodd ei ddal, ond yna dihangodd eto yn barhaol. Aeth ymlaen i helpu dros 3,000 o blant Pacistani oedd yn gaethweision i ddianc rhag llafur caled, a chafodd gydnabyddiaeth ryngwladol am ei ymdrechion.

Enw: Bana al-Abed

Oed: 6 pan ddechreuodd ar actifyddiaeth

Ym mis Medi 2016 sefydlodd gyfrif Twitter, a chyda help ei mam, sy'n siarad Saesneg, anfonodd fideos a negeseuon trydar allan yn beirniadu defnydd llywodraeth Syria o arfau.